Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 26.11.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## COVID-19: Gwisgo gorchuddion wyneb mewn manwerthu: pecyn hyrwyddo

Mae posteri a thaflenni i hyrwyddo'r defnydd o orchuddion wyneb mewn mannau manwerthu ar gael yn:

https://llyw.cymru/gwisgo-gorchuddion-wyneb-mewn-manwerthu-pecyn-hyrwyddo

## COVID-19: Cyfrifoldebau Cyflogwyr – Gwybodaeth a Chanllawiau

Mae Cymru yn parhau i fod ar Lefel Rhybudd 0 gyda holl fusnesau'n gallu agor. Mae cynnal asesiad risg coronafeirws yn

parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau, a rhaid gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o coronafeirws. Mae'r wybodaeth a chanllawiau diweddaraf ar gyfer cyflogwyr ar gael yn:

https://llyw.cymru/eich-cyfrifoldebau-fel-cyflogwr-coronafeirws

# IECHYD a DIOGELWCH: Rheoli iechyd a diogelwch gweithwyr cartref

Gellir dod o hyd i ganllawiau diweddaraf yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE) ar gyfer unrhyw un sy'n cyflogi gweithwyr cartref, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu eu hamser rhwng eu gweithle a'u cartref (gweithio hybrid), ar:

https://www.hse.gov.uk/home-working/employer/index.htm

# LLES: Lansio ymgyrch 'Working Minds'

Mae ymgyrch yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE), 'Working Minds', yn hyrwyddo iechyd meddwl da yn y gwaith ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch sut i adnabod ac ymateb i arwyddion straen. Mae'r wybodaeth ar gael ar:

https://workright.campaign.gov.uk/campaigns/working-minds/

# CYFLE: Massachusetts Institute of Technology (MIT) yng Nghymru – A allai eich busnes elwa?

Mae Llywodraeth Cymru wedi'i hymestyn ei haelodaeth o raglen Cyswllt Diwydiannol MIT (ILP) – a sefydlwyd i bontio'r bwlch rhwng ymchwil a diwydiant. Mae aelodaeth ILP yn rhoi mynediad at amrywiaeth o adnoddau fel gweminarau, cynadleddau a gweithdai arbenigol. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/blogiau/mit-yng-nghymru-allai-eich-busnes-elwa

# CYMORTH: Y Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru

Mae'r Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru (WCRC) yn cefnogi ac yn helpu BBaChau, busnesau cadwyn cyflenwi a sefydliadau'r trydydd sector rhag seiberdroseddau.Cynigir amrywiaeth o becynnau aelodaeth, gydag aelodaeth graidd ddi-dâl. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.wcrcentre.co.uk/?lang=cy

# BREXIT: Gwiriwch sut i fewnforio neu allforio nwyddau

Mae teclyn newydd i wirio sut i fewnforio neu allforio nwyddau, sy'n darparu arweiniad wedi'i deilwra gam wrth gam, wedi'i lansio. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/check-how-to-import-export

# ARIANNU: Grant arloesi awyrofod ar gyfer BBaChau

Gall busnesau sydd wedi'u cofrestru yn y DU wneud cais am gyfran o grant o £2.5 miliwn a ariennir gan Innovate UK a rhaglen y Sefydliad Technoleg Awyrofod (ATI), i gynnal prosiectau Ymchwil a Datblygu cydweithredol awyrofod sifil wedi'u harwain gan ddiwydiant. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12 Ionawr 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.ukri.org/opportunity/natep-helping-smes-innovate-in-aerospace-autumn-2021/

# DIGWYDDIAD: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Digwyddiad Ymgysylltu Cynnar â'r Farchnad 3 Rhagfyr 2021

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn comisiynu'r gwaith o gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf dros y blynyddoedd nesaf, ac yn cynnal Digwyddiad Ymgysylltu Cynnar â'r Farchnad ar Zoom ar 3 Rhagfyr 2021, o 10:00am-12:30pm. Bydd yna gyflwyniad i'r Cynllun Twf a thrafodaeth am y cyfleoedd fydd yn deillio ohono fo. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3kfxvOE

## DIGWYDDIAD: Recriwtio Gweithwyr – Y Materion Cyfreithiol 29 Tachwedd 2021

Bydd y weminar Busnes Cymru hon, i'w chynnal ar 29 Tachwedd 2021, o 10:00am-11:00am, yn rhoi mewnwelediad i'r materion cyfreithiol i'w hystyried yn ystod y broses recriwtio. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/recriwtio-gweithwyr-y-materion-cyfreithiol/

## DIGWYDDIAD: FSB – 'Women entrepreneurs in hospitality' 30 Tachwedd 2021

Bydd y weminar hon, a gynhelir ar 30 Tachwedd 2021, rhwng 11:00am-12:00pm, yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol yn adroddiad 'A Menu for Recovery' gan FSB, ac yn trafod pam mae'r sector yn apelio at ferched sy'n entrepreneuriaid i sefydlu eu busnes, ond hefyd beth mwy gellid ei wneud i helpu merched i dyfu eu busnesau. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar/women-entrepreneurs-in-hospitality.html

## HYFFORDDIANT: Cymorth i Dyfu | Cynllun Rheolaeth

Mae rhaglen Llywodraeth y DU, Cymorth i Dyfu: Cynllun Rheolaeth, wedi'i gynllunio i fod yn hylaw ochr yn ochr â gwaith llawn amser, ac mae'n cefnogi arweinwyr busnesau bach i ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, arloesi a mabwysiadu digidol. Am fwy o wybodaeth am y cwrs nesaf, fydd yn dechrau gyda sesiwn gyflwyno ar 30 Tachwedd 2021, ewch i:

https://bit.ly/3CA4F1M

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru